



Uned ymholi: Gwreiddio yn y Gymraeg

Gwybodaeth a dysgu blaenorol: Ystyried sgiliau gwrando a llafar. Ystyried sgiliau cymhwyso gwybodaeth i wahanol sefyllfaoedd.

Yn ystod eich taith mi fyddwch yn ...

1. Dysgu ac yn cofio sain llythrennau.
2. Dysgu dyddiau'r wythnos a'r misoedd.
3. Dysgu cyfrif i 100
4. Dysgu'r lliwiau
5. Gallu cyflwyno ffeithiau syml amdanaf fy hun
6. Gallu defnyddio **mae gen i** a **does gen i ddim** yn gywir
7. Gallu cyflwyno a disgrifio aelodau fy nheulu
8. Defnyddio **mae ganddo fo** a **mae ganddi hi** yn gywir
9. Gallu disgrifio personoliaeth yn syml
10. Dysgu pynciau'r ysgol.
11. Mynegi barn yn syml am bynciau'r ysgol.
12. Dysgu a chyflwyno geirfa ar y thema môr.
13. Labelu llun o draeth gyda'r eirfa newydd
14. Ysgrifennu brawddegau syml am y môr a lan y môr.
15. Tywydd.
16. Cyflwyno pwyntiau'r cwmpawd.
17. Ddoe, roedd hi'n ... , heddiw mae hi'n ... yfory bydd hi'n
18. Creu cyflwyniad tywydd ar imovie
19. Dysgu enwau gwledydd
20. Dillad gwyliau i wlad boeth
21. Dillad gwyliau i wlad oer
22. Sgwrs gwyliau mewn gwlad boeth
23. Sgwrs gwyliau mewn gwlad oer
24. Ysgrifennu cardyn post
25. Bwydydd gwledydd gwahanol
26. Sgwrs archebu bwyd mewn bwyty /caffi

Yr ydym ar y daith hon oherwydd ...

Rydym yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n cysylltu ac yn cymhwyso gwybodaeth a sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion

Rydym yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n nodi ac yn bachu cyfleoedd

Rydym yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gosod safonau uchel i'w hunain ac yn ceisio ac yn mwynhau her

Rydym yn unigolion iach, hyderus

Eich tasgau

Tasg 1: Creu imovie cyflwyniad tywydd

Tasg 2: Ysgrifennu cardyn post